



Dafydd ap Gwilym – CA5

Tasg 5: Gwaith trafod

Ar hyd y blynyddoedd, mae ysgolheigion wedi mynd ati i geisio dadansoddi'r llawysgrifau lle ceir copïau o waith yr hen feirdd.

Gan fod cerddi beirdd poblogaidd fel Dafydd ap Gwilym wedi eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ar lafar, mae angen gwaith manwl a gofalus i geisio dyfalu beth oedd y fersiwn wreiddiol. Mae un gêm fach o 'Chinese whispers' yn rhoi syniad i ni o ba mor debygol yw hi bod cerddi wedi newid wrth iddyn nhw gael eu hailadrodd.

Yn y tabl isod fe welwch dair fersiwn. Daw'r gyntaf o'r llawysgrifau, mae'r ail yn aralleiriad o wefan dafyddapgwilym.net ac mae'r drydedd wedi ei llunio gan Gwyn Thomas.

Er mwyn dyfnhau eich dealltwriaeth o'r cywydd, trafodwch y fersiynau â'ch partner.

Ystyriwch yr eirfa a'r sain yn arbennig.



Dafydd ap Gwilym	Aralleiriad dafyddapgilym.net	Gwyn Thomas
Annhebig i'r mis dig du	Annhebyg [yw Mai] i'r mis du cas	Gwahanol i'r mis digofus, du
A gerydd i bawb garu,	sy'n gwahardd pawb rhag caru,	A rwystro pawb rhag caru,
A bair tristlaw a byrddydd	sy'n peri glaw trist a dyddiau byrion	Sy'n peri glaw trist a dyddiau byrion
A gwynt i ysbeilio gwŷdd,	a gwynt i ddinoethi'r coed,	A gwynt i ysbeilio'r coed,
A llesgedd, breuoledd braw,	a llesgedd, gwendid dychrynlyd,	A gwendid, sy'n ddychryn ar freuder [NEU sy'n brawf ar freuder dyn]
A llaesglog a chenllysglaw,	a chlogyn llaes a chenllysg,	A chôt laes a bwrw cenllysg
Ac annog llanw ac annwyd,	a chymell llifogydd ac oerfel,	Ac sy'n annog llifogydd ac oerni
Ac mewn naint llifeiriaint llwyd,	a llifeiriant brown mewn nentydd,	A llifeiriant llwyd mewn nentydd
A dwyn sôn mewn afonydd,	a chadw sŵn mewn afonydd,	A pheri sŵn mawr mewn afonydd
A llidio a duo dydd,	a golau dydd yn cochi ac yn tywyllu,	A pheri llid a duolliw dydd,
Ac awyr drymled ledoer	ac awyr drymaidd oerllyd	A chwmwl trymllyd, oerllyd
A'i lliw yn gorchuddio'r lloer.	a'i lliw yn gorchuddio'r lleuad.	A'i liw yn cuddio'r lleuad.
Dêl iddo rhyw addo rhwydd	Deued iddo (rhyw fygwth hawdd)	Doed iddo (rhyw fygwth rhwydd)
Deuddrwg am ei wladeiddrwydd	ddau anffawd am ei anghwrteisi.	Ddwbwl-ddrwg am ei anghwrteisi